

Rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (Human Tissue Authority) yn y broses o roi organau gan roddwyr byw

Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (Y Ddeddf) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae'r fframwaith yn cael ei ddarparu gan Ddeddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006.

Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol (Human Tissue Authority) (Yr Awdurdod) yn rhoi cyngor ac arweiniad am y Ddeddf Meinweoedd Dynol. Rydym yn rheoleiddio'r broses o roi organau gan roddwyr byw yn y Deyrnas Unedig trwy benderfynu a all pob achos fynd rhagddo, ar sail meini prawf a bennwyd gan y Senedd.

Rydym yn argymhell eich bod yn darllen y daflen hon ochr yn ochr â'r wybodaeth arall a ddarparwyd gan eich uned drawsblannu. Bydd hyn yn helpu i roi gwybod i chi am yr hyn y mae'n ei olygu i'r rhoddwr byw ac i'r sawl sy'n derbyn yr organ.

Cyfweliad yr Aseswr Annibynnol

Rhaid i bob rhoddwr a derbynnydd weld Aseswr Annibynnol sydd wedi ei hyfforddi a'i achredu gan yr Awdurdod. Mae'r Aseswr Annibynnol yn cyfweld y rhoddwr a'r sawl sy'n derbyn yr organ ar wahân a gyda'i gilydd ar ein rhan ac mae'n annibynnol ar y timau gofal iechyd sy'n ymwneud â rhannau meddygol

y broses.

Pwrpas y cyfweliadau yw sicrhau nad yw rhoddwyr yn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth yn erbyn eu hewylllys, sicrhau na cheisiwyd ac na chynigiwyd gwobr a sicrhau bod gan y rhoddwr y gallu i wneud penderfyniad gwybodus.

Mae'r rhan fwyaf o gyfweliadau'n amrywio o 30 munud i awr, yn dibynnu pa mor gymhleth yw'r achos. Gofynnir i roddwyr a derbynnyddion brofi pwy ydynt a chael prawf o'u perthynas.

Mae'n drosedd cynnal llawdriniaeth trawsblannu rhwng dau berson byw os na fodlonir amodau'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod rhaid rhoi caniatâd dilys. Mae hefyd yn drosedd i ymwneud â phrynu neu werthu organau dynol. Y gosb am y troseddau hyn yw dedfryd o garchar am hyd at dair blynedd, dirwy neu'r ddau. Gofynnir i bob rhoddwr ddarparu datganiad wedi ei lofnodi yn cadarnhau nad oes unrhyw wobr yn gysylltiedig â'r weithred o roi'r organ a'r trawsblaniad.

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (Human Tissue Authority)

Ein rôl yn y broses o roi organau gan roddwyr byw



Y broses Aseiad Annibynnol

Cynhelir cyfweiliadau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ar ôl i ymarferwr meddygol y rhoddwr bennu ei bod yn feddygol a chlinigol addas iddo neu iddi wneud hynny.

Bydd Cydlynnydd Rhoddwyr Byw yn trefnu'r cyfweiliad ar adeg sy'n gyfleus i'r rhoddwr, y derbynnydd a'r Asewr Annibynnol. Bydd y Cydlynnydd hefyd yn trefnu cyfieithydd neu unrhyw ofynion arbennig eraill os bydd angen.

Ar ôl y cyfweiliad mae gan yr Asewr Annibynnol 10 diwrnod gwaith i gyflwyno adroddiad o'r cyfweiliad i'r Awdurdod. Rhaid i'r Awdurdod wneud penderfyniad ynglŷn â phob achos a atgyfeirir gan yr


uned drawsblannu. Gall rhai achosion gael eu hasesu gan aelod o staff yr Awdurdod, tra bod achosion eraill yn cael eu hasesu gan banel o dri aelod o'r Bwrdd. Mae'r Awdurdod yn ceisio asesu'r holl achosion nad ydynt yn mynd gerbron y panel o fewn pum diwrnod gwaith a phob achos sy'n mynd gerbron y panel o fewn deg diwrnod gwaith o gael eu hatgyfeirio. Mae'r cyfnod yn dechrau o'r adeg y mae'r Awdurdod wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i asesu'r achos.

Ar ôl dod i benderfyniad ynglŷn â phob achos bydd y Cydlynnydd Rhoddwyr Byw a'r ymarferydd meddygol sy'n gyfrifol am y rhoddwr yn cael eu hysbysu. Y Cydlynnydd sy'n rhoi gwybod i'r rhoddwr a'r derbynnydd am y penderfyniad ar ran yr Awdurdod.



Manylion Cyswllt

Canllaw yn unig yw'r daflen hon. Gweler y manylion cyswllt isod i gael mwy o wybodaeth:

 020 7269 1900


 enquiries@hta.gov.uk

 www.hta.gov.uk

 @HTA_UK

 /HumanTissueAuthority

Human Tissue Authority
151 Buckingham Palace
Road London

 SW1W 9SZ

Mae'r daflen hon ar gael ar ein gwefan yn Saesneg, Arabeg, Bengali, Groeg, Gujarati, Hindi, Pwyleg, Punjabi ac Wrddw.

Cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2014
Hawlfraint: Human Tissue Authority